Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon

Cofnodion Pwyllgor Personél, 22/10/19

Yn bresennol: Y Cynghorwyr E.Lovgreen, W.T.Owen, C.Williams (Cadeirydd)

1. Ymddiheuriadau

Y Cynghorwyr A.Hopcyn, E.R.Hughes, S.Sage

2. Datgan Buddiant Personol

Dim

3. Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc)

Dim

4. Materion Staffio

Cafwyd trafodaeth ar y materion canlynol:

(1) Yr angen i ddarparu contract ffurfiol ar gyfer Clerc y Cyngor Tref newydd.
(2) Swydd Ddisgrifiad y Clerc – aeth y Clerc drwy'r Swydd Ddisgrifiad, gan amlinellu ei syniadau o ran datblygu'r swydd, er enghraifft o ran moderneiddio'r drefn o weinyddu pwyllgorau, diweddaru'r wefan a'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol, yr angen i foderneiddio Adeilad yr Institiwt a'r offer a'r angen i godi proffil y Cyngor.
(3) Dyletswyddau'r Ysgrifenyddes.

Diolchodd y Cadeirydd bawb oedd yn ymwneud â phroses o benodi'r Clerc, a nododd fod y Pwyllgor Personél yma i gefnogi'r Clerc i gyflawni ei ddyletswyddau.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc edrych ar ei ddyletswyddau / swydd ddisgrifiad a dod ag adroddiad gerbron y cyfarfod nesaf o'r pwyllgor hwn efo syniadau o ran moderneiddio sut roedd swyddfa'r Clerc yn gweithredu ac i sicrhau gwelliant parhaus. Roedd hyn yn cynnwys (ond nid yn gyfyngedig i):

- **wneud ymholiadau o ran system sain newydd i'r Cyngor.**
- **edrych ar creu trefn lle roedd ymwelwyr yn gorfod gwneud apwyntiad gyda'r Clerc neu aelod arall o'r staff. Byddai hyn yn lleihau'r aflonyddwch allai fodoli yn ystod y dydd er mwyn caniatáu'r Clerc a'r staff gael y cyfle i gwblhau eu gwaith.**
- **wneud ymholiadau i gwblhau tystysgrif ILCA cyn gynted ag y bo'n ymarferol i wneud hynny.**

Gorffennodd y cyfarfod am 5.55 p.m.